

ADRODDIAD Y CADEIR YDD

Dyma'r flwyddyn gyntaf o weithgareddau llawn yn dilyn adferiad rhannol 2021, wedi cyfyngiadau Covid.

Llwyddodd yr adran Addysg i barhau i ddarparu dulliau ychwanegol o ddysgu Cymraeg arlein, yn ogystal ag ystod lawn o gyrsiau preswyl ar y safle. Mae'r gallu i gynnig dewis eang o gyfleoedd dysgu yn allweddol os am gynyddu i'r eithaf nifer y rhai sy'n dysgu'r iaith. Fe barhaodd yr arlwyr i ddenu adborth ffafriol a chanmoliaeth gan y dysgwyr.

Bu'n flwyddyn hynod o brysur o ran ein gweithgareddau masnachol, sydd mor hanfodol er mwyn cynnal y safle a'r gweithgarwch. Gohiriwyd llawer o briodasau yn 2020 a 2021 yn sgil Covid ac o'r herwydd croesawyd mwy na'r nifer arferol ohonynt yn 2022 wrth i ddyddiadau gael eu hail-drefnu. Golygodd hyn fod pwysau sylweddol ar ysgwyddau ein staff a hynny ar adeg pan oedd y diwydiant lletygarwch yn gyffredinol yn wynebu problemau staffio mawr. Gwnaed ymdrech arwrol i gynnal pob elfen o'r gwasanaeth ar y safon uchaf.

Mae gwybodaeth am y Nant fel mangre hudolus i ymweld â hi yn dal i gynyddu gan greu prysurdeb mawr yng Nghaffi Meinir ar ddyddiau braf. Mae nifer cyson o ymwelwyr bob wythnos yn mwynhau'r cyflwyniadau ar dreftadaeth a hanes y Nant yn y Capel, y Tŷ Cyfnod a'r Feddygfa.

Gwnaed buddsoddiad sylweddol unwaith eto yn yr adnoddau ar y safle, gan adnewyddu dau o'r unedau llety i safon sylweddol uwch. Mae'n fwriad llunio rhaglen estynedig i sicrhau cynnal a chadw ac uwch-raddio'r holl unedau dros gyfnod o rai blynnyddoedd.

Mae'r cyfrifon am y flwyddyn yn dangos trosiant o £1,529,497 – gostyngiad o 7.2% ar ffigwr 2021, lle gwnaed gwahaniaeth mawr gan gymorthdaliadau cyhoeddus yng nghyfnod y pandemig. Er hyn, dangosir gwarged net am y flwyddyn o £91,088 (6% o'r trosiant) sydd wedi cefnogi'r buddsoddiad yn yr adnoddau.

Mae ein diolch i Mair Saunders a'r holl staff yn fawr iawn am y canlyniad ariannol clodwiw yma.

Yn ystod y flwyddyn ymunodd Garffild Lloyd Lewis â'r Bwrdd fel Is-Gadeirydd a daeth Rhiannon Ceiri a Martyn Croydon i ymuno â ni fel aelodau newydd wrth i ni ffarwelio â'r Trysorydd Clive Wolfendale a Myrddin ap Dafydd. Mae fy niolch yn fawr i'r holl aelodau am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau ar hyd y flwyddyn.

Mae lleoliad, hanes a chyfleusterau Nant Gwrtheyrn yn adnodd amhrisiadwy i'r genedl. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth am sicrhau fod posibiliadau'r Nant ar gyfer Dysgu, Ysbrydoli a Mwynhau yn cael eu gwireddu'n llawn ac mae'r gwaith o gynllunio'n strategol ar gyfer sicrhau cyflawni'r amcan yma ar gyfer y tymor hir eisoes wedi dechrau.

Huw Jones

Cadeirydd

1.6.23

CHAIRMAN'S REPORT

This was the first full year of activity after the partial recovery of 2021, following Covid restrictions.

The Education department managed to continue to provide additional methods of learning Welsh online, as well as a full range of residential courses on site. The ability to offer a wide choice of learning opportunities is key if we want to maximize the number of those who learn the language. The courses continued to attract favourable feedback and praise from learners.

It was an extremely busy year in terms of our commercial operations, which are so essential in order to maintain the site and its activities. Many weddings were postponed in 2020 and 2021 due to Covid and rearranging dates meant that more than the usual number were welcomed in 2022. This meant considerable pressure on the shoulders of our staff at a time when the hospitality industry in general was facing major staffing problems. A heroic effort was made to maintain every element of the service to the highest standard.

Awareness of the Nant as a magical place to visit has continued to increase, making Caffi Meinir a busy attraction on fine days. A steady number of visitors each week enjoy the presentations on the heritage and history of the Nant which can be seen in the Chapel, the Period House and the Old Surgery.

A considerable investment was made once again in the resources on site, refurbishing two of the accommodation units to a significantly higher standard. We will be drawing up an extensive refurbishment programme to ensure the maintenance and upgrading of all units over a period of several years.

The accounts for the year show a turnover of £1,529,497 - a reduction of 7.2% on the 2021 figure, where a big difference was made by the subsidies which were made available during the pandemic. Nevertheless, 2022 has generated a net surplus of £91,088 (6% of turnover) which has supported the investment in resources.

Our heartfelt thanks go to Mair Saunders and all the staff for this commendable financial outcome.

During the year Garfield Lloyd Lewis joined the Board as Vice-Chair and Rhiannon Ceiri and Martyn Croydon joined as new members as we said goodbye to Treasurer Clive Wolfendale and Myrddin ap Dafydd. I am very grateful to all the Board members for their support and contributions throughout the year.

The location, history and facilities of Nant Gwrtheyrn are an invaluable resource for the nation. The Board of Trustees wants to ensure that the possibilities the Nant offers for Learning, Inspiration and Enjoyment are fully realised. The work of strategic planning to ensure the achievement of this objective for the long term has already started.

Huw Jones

Chairman

1.6.23